newyddion**rhsgbcc**

Llais i'r rhwydwaith gwirfoddhol a'r cymunedau BME yng Nghymru

Newyddion RhSGBCC | Rhifyn 12 | 2008/09
www.bvsnw.org.uk

bvsnw
Black Voluntary Sector Network Wales
Rhywydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Croenddu Cymru

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR

Ers cyhoeddi ein cylchlythyr diwethaf mae staff ac aelodau'r RSWPDC wedi bod yn brysur gyda llawer o fentrau cyffroes yn cymryd lle.

Cynhaliwyd Gwobrwyon Amrywiaeth ym mis Hydref ac wedyn dathlwyd Mis Hanes Pobl Ddu Cymru (MHPDC) ym mis Tachwedd gyda 1100 o bobl yn cymryd rhan.

Mae newid wedi bod yn y tîm; mae Liliane Jammaers, Manjit Mahil ac Andree Morgan-Andrews wedi symud ymlaen i yrfaoedd a breuddwydion newydd. Dymunwn yn dda iddynt.

Ar y llaw arall mae pum unigolyn brwdfrydig wedi ymuno â ni: Michael Flynn yw ein Swyddog Cyfathrebu a Chyfranogiad, Hanna Miyir yw ein Swyddog Datblygu Ieuenctid, Jolanda Tenggara yw ein Swyddog Cyllid, Patricia Barrera yw ein swyddog symudol ac mae Arafa Mustafa bellach yn aelod o'r tîm Cymunedau Cyntaf gyda chyfrifoldeb dros fenywod o leiafrifoedd ethnig.

Oherwydd ein perthynas agos gyda Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd (VAC) (GGC), rydym yn cynnal Tîm Cydlyniad Cymunedol i'r LSOA trwy weithio yn agos gyda Chymunedau Cyntaf Caerdydd (Tîm Cymunedau Ethnig lleiafrifol).

Mae Cadwyn Ieuenctid Caerdydd bellach yn ei hail flwyddyn. Mae rhai o'r bobl ifanc wedi symud ymlaen i gyflogaeth lawn neu addysg bellach. Mae Hanna Miyir wedi ymgymryd fel Swyddog Datblygu Ieuenctid. (Gweler yr erthygl amgaeedig).

Yn anffodus, mae'r Prosiect ARWYDDBOST wedi dirwyn i ben ar ôl blwyddyn am nad ellir sicrhau cyllid. Mae adroddiad am ganlyniadau ac awgrymiadau ar gael ar ein gwefan neu gellir cael copi caled o'r swyddfa hon. O achos hyn collwyd Jen Rowlands (Swyddog Gogledd Cymru). Mi fyddwn yn ei cholli.

Mae Prosiect Datblygu'r Celfyddydau yn tyfu ac mae wedi ei wella gan apwyntiad Leanne Rahman fel Swyddog Datblygu Celfyddydau rhan amser y BME. Mae'r Gronfa Ddata ar gael ac mae'n gwella o hyd.

Yn anffodus mae Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau Cyntaf (RCCC), sef partneriaeth o wyth mudiad wedi dod i ben ar y 31 o fis Rhagfyr 2008. O safbwynt y RSWPDC mae`r wyth mlynedd wedi bod yn llwyddiant mawr. Gobeithiwn gadw mewn cysylltiad gyda'r holl aelodau mewn prosiectau yn y dyfodol.

Rydym yn gwybod ein bod yn byw mewn cyfnod economaidd anodd. Er bod sicrhau cyllid wedi bod yn anodd i'r sector Ddu ac Ethnig (gan gynnwys y RSWPDC) mae pethau yn mynd i fod yn galetach. Bydd y flwyddyn newydd yn ein herio ni fel mudiad i sicrhau ein bod yn medru cynnal gwasanaethau i'n haelodau. Mae'r staff a'r bwrdd yn gweithio'n galed i sicrhau bod cyllid yn parhau a bod RSWPDC yn medru darparu gwasanaethau uchel i'n haelodau.

Mi fyddwn yn dweud oddi wrthych am ddyfodol y RSWPDC. Efallai bod yr amser wedi cyrraedd i edrych eto ar ein dull o fyw. Rhaid i ni fod yn fwy gwybodus am yr amgylchedd a phobl eraill. Rhaid bod yn agored ac addasu i realiti newydd.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i rannu ein llawenydd a'n balchder gyda'n holl aelodau, cyllidwyr a phartneriaid yn un o ddigwyddiadau mwyaf anhygoel 2008/09, etholiad Barack Obama fel Arlywydd Cyntaf Affricanaidd Americanaidd Unol Daleithiau America. Mae ei etholiad a'i urddiad yn dod â gobaith ac optimistiaeth i holl bobl y byd, ond mae'n adeg arbennig iawn i'r rhai hynny sydd wedi cael eu gorthrymu drwy gydol hanes. Credwn ei fod yn cynrychioli ysbrydoliaeth i bob un ohonom, a gobeithiwn yr ysgogir teimlad o ddyhead a newid ymhlith plant a phobl ifanc BME yng Nghymru. Ac fe edrychwn ymlaen at ddyfodol gyda'r ysbryd o "IE FE ALLWN".

Yn olaf, ar ran y bwrdd a'r staff hoffwn ddiolch i'n cyfranogwyr a phartneriaid. Yn enwedig, hoffwn gydnabod Cyngor Caerdydd a Chyngor Celfyddydau Cymru am sicrhau'r Gwobrwyon Amrywiol a Mis Hanes Pobl Ddu Cymru. 2008.

Maria Mesa
Cyfarwyddwr

bvsnw
Black Voluntary Sector Network Wales
Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Croenddu Cymru

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Dathliad Mis Hanes Pobl Ddu Cymru (MHPDC)

Profodd Mis Hanes Pobl Ddu (MHPD) 2008 i fod yn garreg filltir gyda siopau gwaith yn cael eu cynnal dros Gymru am y tro cyntaf. Roedd y gweithredoedd yn cynnwys plant, plant yn eu harddegau ac oedolion yn cyfrannu mewn celf, crefft, elfennau efengylaidd, rap, murluniau creadigol, cart achau, bandiau taro a gwneud mygydau. Cefnogwyd MHPD gan Gyngor Caerdydd a Chyngor Celfyddydau Cymru ynghyd â mudiadau eraill. Rheolwyd y fenter gan bartneriaeth Amlasiantaethol.

Daeth yr holl ddigwyddiadau i ben ar y cyntaf o fis Tachwedd yng Nghanolfan Hamdden Golygfa'r Culfor. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr gyda 1100 o bobl - y mwyafrif o Gymru - yn cyfrannu.

Staffiwyd y digwyddiad gan dros 50 aelod a gwirfoddolwyr o'r RSWPDC a phanel y prosiect. Trawsgludwyd y ganolfan i mewn i brofiad diwylliannol rhyngweithiol ac agorwyd y diwrnod yn swyddogol gan ddiwrnod a dawnswyr a drymwyr Affricanaidd. Gwesteiwr y dydd oedd Linda Mitchell cyn pennaeth Adran Amrywiaeth y BBC.

Uchod ac i fyny i'r dde: Dawnswyr a Drymwyr yn ystod y digwyddiad olaf yng Nghanolfan Golygfa'r Culfor.

Ymlwybrodd y cyfranwyr drwy'r Neuadd orlawn a oedd yn llawn stondinau gwybodaeth, nwyddau lliwgar ac arddangosfeydd.

Siaradwyr y dydd oedd Leanne Wood (AC), Y Cynghorydd Judith Woodman - Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Gaerdydd, David Alston - Cyfarwyddwr Celfyddydau, Cyngor Celfyddydau Cymru a Nigel Walker - Pennaeth Newid a Chyfathrebu Mewnol y BBC. Siaradodd pob un yn bositif am y digwyddiad a phwysigrwydd yr agenda gydraddoldeb yng Nghymru.

Trwy'r dydd roedd y cyfranwyr yn dilyn amryw weithredoedd. Treuliodd y plant amser ar y cwrs ymosodiad a fenthycwyd gan y fyddin. Bu rieni yn mwynhau ffilmiau a siopau gwaith ynglŷn â hanes pobl ddu, gwneud mygydau, arddangosfeydd, sesiynau drymio Affricanaidd, bwyd Caribïaidd, siopau gweithio dawns ac yn enwedig y cwis am hanes pobl ddu.

Ffefrynau`r dydd oedd siopau gwaith y Capoeira a'r sesiynau cymhelliant a roddwyd gan yr arwr lleol a'r cyn-focsiwr Steve Robinson, Vaughan Gething (CUL Cymru) a Nigel Walker.

Wedi diwrnod cyffroes o Addysg, rhannu ac adloniant daeth y diwrnod i ben gan Jane Hutt AC (Gweinidog dros Blant, Addysg, Addysg Hir Dymor a Sgiliau) a fu'n crynhoi digwyddiadau'r mis.

Mae llawer o'r perfformwyr wedi eu gwahodd i berfformio mewn achlysuron eraill gan ddechrau yn ystod y mis hwn. Mae rhai perfformwyr wedi eu hannog i arddangos eu sgiliau hyd at Ddydd Gŵyl Ddewi ym mis Mawrth 2009. Mae datblygiadau eraill yn cynnwys sefydlu grwpiau ffilm a theatr i'r BME.

Hoffai'r MHPDC ddiolch i'r holl gyfranwyr a'r phartneriaid a sicrhaodd bod y rhaglen wedi bod yn llwyddiannus. Rydym yn edrych ymlaen at greu prosiectau a mentrau newydd yn 2009.

60 EILIAD GYDA VAUGHAN GETHING

Enw: Vaughan Gething

Oed: 34

Ble ydych chi'n byw? Y Drenewydd

Ble oeddech wedi eich magu? Dorset

Addysg: Ysgol Gynradd Broadwindsor. Ysgol Uwchradd Beaminster

Addysg Bellach: PC Aberystwyth - Gradd mewn Cyfraith; Prifysgol Caerdydd - Cwrs Ymarfer Cyfreithiol

Cyfreithiwr Proffesiynol: (partner ifanc- caf gyda chwmni Cyfreithwyr Thompson, y cwmni cyfreithiol undebol mwyaf yn y DU), Arlywydd CUL Cymru.

Amcanion pan yn ieuanc: I fod yn gyfreithiwr neu gricedwr, pêl-droediwr, chwaraewr rygbi proffesiynol.

Amcanion nawr: I fod yn llwyddiannus yn fy ngwaith ac yn hapus gartref. Ond mae gennyf ddyheadau gwleidyddol hefyd.

Sut i chi yn cynnal eich penderfyniad? Nid wyf yn teimlo y dylwn roi'r ffidil yn y to. Ni fydd y byd yn le gwell ar ben ei hun, ac os na fyddaf yn ymyrryd ar sut y bydd materion yn effeithio ar fy mywyd bydd eraill yn gwneud dewisiadau drosof. Hoffwn fod yn weithgar yn y gymdeithas yn hytrach na gadael i eraill wneud y dewisiadau i mi.

Ydy hyn wedi bod yn hawdd? Na. Rwyf wedi gweithio yn galed am yr hyn sydd gennyf. Rwy'n gwerthfawrogi hyn am fy mod wedi llwyddo.

Ydy pobl o fewn y Lleiafrifoedd Du ac Ethnig (LLDE) yn cael gwell cyfle? Gwell na chynt ond dim digon da. Mi fydd newidiadau cynyddol yn ein gwneud yn wir gydradd ond ni ddylem aros hyd nes cyfnod ein gor-wyrion i wneud hyn yn realiti.

A fydd Prif Weinidog Du ym Mhrydain? Bydd

Sut i chi yn gweld eich hun fel person LLDE Cymraeg? Rwy'n sicr nad yw fy hunaniaeth yn un syml. Fe`m ganed i yn Zambia i fam ddu a thad Cymraeg gwyn. Fe`m magwyd i mewn ardal wledig o Loegr ac wedi byw yng Nghymru am ddegawd a mwy. Nid yw bod yn Gymro neu Brydeiniwr yn golygu na allai ddathlu fy ngwreiddiau. Rwy'n falch iawn o fy nghefndir.

Beth sy'n eich gwneud chi yn gryf? Teulu a ffrindiau. Mae'n dda i wybod bod gennych gefnogaeth hyd yn oed os fyddwch yn gwneud camgymeriadau. Y teulu yw fyesiampl.

Sut wnaeth eich teulu lwyddo i'ch cefnogi chi? Trwy fy annog yn y pethau rwyf yn dda ynddynt a hefyd yn y rheini nad wyf cystal ynddynt - fel addysg, gwaith neu yrru beic. Mi ges i help yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol cyn i mi ddewis fy ngyrfa. Roedd help a balchder y teulu yn bwysig.

Beth mae bywyd wedi dysgu i chi? Ni ellir anwybyddu pwysigrwydd ffrindiau da. Maent wedi pwysleisio hunan barch a bod eraill yn haeddu parch a deallt- wriaeth.

Pa gyngor sydd gennych i bobl ifanc o'r LLDE? Nid yw bod yn ddawnus yn arwain at hapusrwydd a llwyddiant. Mae dyfalbarhad a dyhead hefyd yn bwysig.

A oes gennych unrhyw uchelgeisiau eraill? Hoffwn fod yn dad. Mae gennyf amser i hynny o hyd.

Gwobrwyon Amrywiaeth Cymru 2008

Ar 31 o Hydref 2008 cynhaliwyd y Gwobrwyon Amrywiaeth gan y RSWPDC yn Neuadd y Sir, Caerdydd. Roedd y digwyddiad yn llwyfan i arddangos y cyfraniad lluoswerth roedd grwpiau amrywiaeth a chydraddoldeb hiliol wedi gwneud trwy Gymru yn ystod 2007/08.

Roedd dros 260 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad gan adlewyrchu'r amrywiaeth cyfoethog o fewn cymunedau Cymru. Profodd yr holl westeion noson o fwyd da, adloniant, gwobrwyon ac acolâdau unigol. Sicrhaodd gwesteiwraig y noson, Linda Mitchell (Cyn pennaeth Amrywiaeth y BBC) bod y digwyddiad yn gymysgedd o hiwmor, adloniant a difrifoldeb. Ymhlith y siaradwyr eraill oedd Dr Brian Gibbons AC, Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, y Cynghorydd Judith Woodman, Dirprwy Arweinydd Cyngor Caerdydd a chyn pencampwr focsio, Steve Robinson. Tanseiliwyd pwysigrwydd yr agenda gydraddoldeb gan yr holl siaradwyr gan bwysleisio adnabyddiaeth, gwobrwyo a chyfathrebu fel rhan o ymarfer da. Roedd hyn yn arwain at gydraddoldeb hiliol.

Roedd yr adloniant yn adlewyrchu amrywiaeth diwylliannol Cymru gyda Perfformiadau o Jazz, Drymio Affricanaidd, Bhangra, Caneuon Gwerin Tsieineaidd a dawns Fongolaidd.

Hoffwn ddiolch i Gyngor Sir Caerdydd, Cyngor Celfyddydau Cymru a chyfranogwyr eraill a oedd yn helpu'r digwyddiad. Hoffwn ddiolch hefyd i enillwyr, a'r eilion gorau a'r holl bobl a oedd yn rhan o'r broses enwebu.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn newydd o waith, gweithrediadau, prosiectau a rhaglenni yn pleidio achos Amrywiaeth ym myd Cydraddoldeb hiliol.

O amgylch y cloc o'r pen:
Linda Mitchell
Gwesteion yn mwynhau'r noson
Jielin Ma
Steve Robinson
Patti Flynn & Humie Webbe

gwobrau amrywiaeth cymru 2008

ENILLWYR GWOBR GRŴP CYMUNEDOL
Winner: Swansea MAS Carnival
Cyntaf: Carnifal MAS Abertawe
Ail: Canolfan Hyfforddi ac Addysg y Drenewydd (BEAT) a Grŵp Cefnogi Menywod o Leiafrifoedd Ethnig y Cymoedd (VWEMS)

MUDIAD GWIRFODDOL BACH/ GWOBR GRŴP ELUSEN
Enillydd: Rhwydwaith Amgylchedd Du (BEN) Saesneg ar gyfer Siaradwyr o Ieithoedd Eraill (ESOL) a'r Uned Ailgylchu.
Eilion Gorau: Mayreau, Rhwydwaith Leiafrifol a Du Gorllewin Cymru a Mela Amlddiwylliannol Caerdydd

MUDIAD GWIRFODDOL CANOL MAINT/ GWOBR ELUSENNOL
Enillydd: Hanes Y Drenewydd a Chanolfan Celfyddydau.

MUDIAD GWIRFODDOL MAWR/ GWOBR ELUSENNOL
Winner: Swansea Waterfront Museum
Enillydd: Amgueddfa Arforol Abertawe
" Prosiect Cymunedol Pawb mewn Cyffion"
Ail: Cwmni Theatr Spectacle am "Bywyd ar Flaen Traed" a'r Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig (EYST) " Prosiect Diogel"

GWOBR FACH I GANOL MAINT AM FENTER GYMDEITHASOL
Enillwyr: Community Helps Itself a Believe 11 Achieve

GWOBR ADRAN A CHORFF SECTOR GYHOEDDUS
Enillwyr: Tîm Adran Hamdden Cyngor Caerdydd "Rhaglen LLDE gyda son arbennig am Rajma Begum a'r Gwasanaethau Chwarae Plant.
Ail: Rhwydwaith Gweithwyr Betws am " Embracing Differences Week" a Shajneen Abedan ar ran Cymunedau Cyntaf Bony-maen "Dathlu Bwyd, Ffydd a Ffasiwn"

GWOBR BARTNERIAETH
Enillydd: Cardiff Honour Based Violence Stakeholder`s Group

GWOBR YSGOL
Enillydd: Ysgol Gymraeg Lôn Las
"Cultural Diversity in a Box Project"
Ail: Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg " Hybu a Dathlu Rhaglen o Amrywiaeth"

CYFLAWNWR IFANC/GWOBR AM ARWEINYDDIAETH IEUANC
Enillydd: Matthew Ricketts

GWOBR UNIGOL
Enillydd: Sarah Cheung
Ail: Brenda Thompson ac Alan Herbert

PRIF WEINIDOG CYMRU YN LANSIO`R MURLUN O AMRYWIAETH GREFYDDOL

Ar yr ail o fis Rhagfyr 2008, roedd Storfa Riverside yng Nghaerdydd yn llawn o bobl a ddaeth i ddathlu pen-blwydd cyntaf y Storfa ac i dystio dadorchuddiad y murlun "By Our Hands Through Our Eyes" sef murlun a oedd yn adlewyrchu Amrywiaeth Crefyddol a Diwylliannol.

Dadorchuddiwyd y Murlun - sydd yn un a hanner medr mewn taldra a saith medr o led - gan y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC, Prif Weinidog Cymru. Croesawyd grŵp o 24 person ifanc o gefndiroedd ethnig a chrefyddol amrywiol. Roedd y rhain yn gyfrifol am y gwaith a roddwyd iddynt dystysgrifau i gydnabod eu gwaith.

Cyflwynwyd cynfas unigol i chwe mudiad dros Gaerdydd. Mae'r rhain yn creu'r murlun ac maent yn cael eu harddangos fel rhan o Ddatblygiad Cymunedol.

Roedd y murlun yn ganlyniad i bedwar mis o waith gan Grŵp Fechgyn Aml ffydd. Cafodd y grŵp gyllid oddi wrth Gronfa'r Swyddfa Gartref. Roedd y prosiect yn bartneriaeth rhwng yr RSWPDC, Barnardos yn Stryd Neville a Stordy`r Riverside.

Roedd 24 o bobl ifanc - rhwng 11-16 oed - yn cymryd rhan yn y fenter. Roeddent yn hanu o wahanol gefndiroedd ethnig - gan gynnwys Somali, Bengali, Pakistani, Indian, Lithuanian, Afro Caribbean, Tras Ddeuol, Omani a Chymraeg Gwyn. Roedd eraill yn Foslem, Hindŵ, Sikh, Cristnogol a Rasta

Trwy raglen ddeinamig a rhyngweithiol o siopau gwaith, sesiynau o grwpiau bach, ffilmiau, rhan chwarae, ymweliadau a chwis, dadansoddwyd y gwahanol fath o gymunedau crefyddol sy'n bodoli yng Nghaerdydd.

Edrychwyd ar ddylanwad crefydd yn eu bywydau a'i effaith ar eu cymheiriaid. Mi oedd hyn yn gymorth i helpu i hwyluso dealltwriaeth.

O ganlyniad i'r prosiect dywedodd Prif Weinidog Cymru Rhodri Morgan AC, "Mae bob amser yn beth da i weld pobl o wahanol hil, crefydd a diwylliant yn gweithio gyda'i gilydd ac yn fwyfwy pan mae'r canlyniad yn arwain at ddarn o waith sydd mor bositif i bobl eraill.

Hoffai'r RSWPDC ddiolch i Barnardos Stryd Neville a'r Stordy Riverside a'r holl bobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o'r prosiect ac am greu neges mor bositif ac ysbrydol. Edrychwn ymlaen at greu prosiectau tebyg yng Nghymru.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect neu os oes gennych ddiddordeb mewn datblygu prosiectau o fewn eich ardal, a wnewch chi gysylltu â Nathan Evans neu Gareth Hicks ar 02920 440182 yn y RSWPDC.

CYDLYNIAD CYMUNEDOL

Mae RSWPDC ar hyn o bryd yn lletyo'r prosiectau GGC (VAC) a'r LSOA. Mae'r prosiect yn cynnwys dau swyddog datblygu cymunedol lleiafrifol ethnig sydd â swyddogaeth rhyw benodol. Mae'r swyddogion yn aelodau o'r Tîm Cymunedau Cyntaf yn GGC ac wedi eu sefydlu yn RSWPDC.

Wedi `r dosbarthiad o 42 ardal arall yng Nghymru fel ardaloedd Cymunedau Cyntaf, mae GGC wedi hwyluso ymglymiad 6 ardal newydd: Y Tyllgoed, Grangetown, Llanrhymni, Plasnewydd, Rumney a Trowbridge. Mae GGC wedi cefnogi grwpiau llywio yn Rumney, Grangetown a Phlasnewydd. Dosbarthwyd holiaduron yn yr ardaloedd hyn. Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad, nodwyd materion allweddol.

Yr ardaloedd allweddol yw De Grangetown, Plasnewydd a Rumney.

Y pwrpas yw deall y materion hynny sydd o bwys ac yn effeithio'r Lleiafrifoedd Ethnig (LLE) ac i hybu cydlyniad cymunedol yn Ne Grangetown, Plasnewydd a Rumney - gan sefydlu blaenoriaethau allweddol a dechrau adeiladu cynllun cynhwysedd.

Y cymal cyntaf fydd i sefydlu map o deuluoedd ethnig lleiafrifol, unigolion a darparwyr gwasanaethau. I'r diben hwn bydd angen mynd o ddrws i ddrws, i achlysuron lleol a hefyd trwy weithio gyda mudiadau a darparwyr gwasanaethau o fewn y tair ardal.

Mae'r ddau swyddog datblygu hefyd yn gweithio gyda'r Tîm Cymunedau Cyntaf yn GGC ar 5 o digwyddiadau diwylliannol ar draws y tair prif ardal. Mae dau ddigwyddiad wedi bod yn llwyddiant yn barod, sef "Blas y Caribî" yn y YMCA a "Noson yn Bollywood" a gynhaliwyd yn ysgol Gynradd Grangetown. Bu'r ddau ddigwyddiad yn llwyddiant mawr gyda dros 500 yn bresennol.
Os ydych yn dod o leiafrif ethnig ac yn byw yn Ne Grangetown, Plasnewydd neu Rumney ac yn ymddiddori yn y cyfle i gymryd rhan mewn Cydlyniad Cymunedol a wnewch chi gysylltu â:

Gareth Hicks g.hicks@bvsnw.org.uk neu
Arafa Mustafa
a.mustafa@bvsnw.org.uk
Teliffon: 02920 440187

HEDDLU YN Y GYMUNED

Mae'r RSWPDC ynghyd â Heddlu De Cymru yn ddiweddar wedi hybu heddweision dan hyfforddiant i ddod i ardaloedd o amrywiaeth ethnig er mwyn iddynt weld pa broblemau sy'n codi.

Bu ein swyddog hyfforddi cyntaf gennym am dri diwrnod ym Mis Tachwedd 2008 gan ddarparu i'r RSWPDC erthygl yn amlinellu ei gobeithion a phrofiad am y dyfodol.

Gwas Heddlu dan Hyfforddiant
As part of my training programme for South Wales Police, I Fel rhan o fy rhaglen hyfforddi gyda Heddlu De Cymru, treuliais dri diwrnod gyda'r RSWPDC. Roedd tîm y RSWPDC yn groesawgar ac agored. Mi ges i fy nerbyn yn gyflym i mewn yw plith. Dysgais lawer o bethau a fydd yn fy ngwneud yn well heddwas.

Pwrpas y lleoliad oedd rhoi i mi fewnwelediad i'r materion hynny sy'n effeithio ein cymdeithas newidiol. Cwrddais bobl o gefnderoedd, agweddau a chrefyddau gwahanol.
Gyda'r amrywiaethau hyn ceir llawer o sialensiau i unigolion a mudiadau, ac er mwyn elwa o'r gymdeithas amrywiol hon rhaid deall ein poblogaeth amrywiol a nodi y gwerth bod hyn yn creu. Oherwydd hyn teimlwyd bod y lleoliad yn gyfle i gymryd rhan flaenllaw mewn bywyd beunyddiol y gymuned.

Cyn i mi ddechrau'r lleoliad rhaid i mi gyfaddef nad oedd gennyf fawr o wybodaeth am gymunedau LLDE , eu hanghenion neu eu ffyrdd o fyw.

Cefais fy ysbrydoli gan waith y RSWPDC a'u prosiectau ac mi roeddwn wedi fy syfrdanu ar gymaint o waith caled a gyflawnwyd.

Mae RSWPDC wedi gwneud i mi ddeall a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau ac i gyfleu hyn i fy ngwaith beunyddiol. Yn ddiau, bydd y rhaglen hon yn arwain at agwedd mwy hyblyg gan swyddogion yr heddlu ac o ganlyniad gellir creu amgylchedd mwy gwobrwyol a selog.

Yn olaf hoffwn ddiolch i dîm y RSWPDC am eu hamser, gwybodaeth a charedigrwydd. Hoffwn fod wedi aros gyda'r tîm yn hwy.

Gan Lindsay Thompson, heddwraig dan hyfforddiant, Heddlu De Cymru.

GRŴP RHYNG GYSYLLTU

Mae grŵp Cysylltu Ieuenctid yr LLDE, sydd wedi ei gyllido gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Caerdydd a Chyngor Caerdydd wedi mynd o nerth i nerth.

Mae digwyddiadau a phrosiectau diweddar wedi eu datblygu i alluogi pobl ifanc i gymryd rhan o fewn eu cymunedau. Mae grŵp lliwio wedi ei sefydlu sy'n cynnwys merched a bechgyn rhwng 17-21 o wahanol gefndiroedd ethnig. Maent wedi bod yn cyfarfod ei gilydd a chynllunio prosiectau a gweithgareddau. Mae'r gweithgareddau hyd yn hyn yn cynnwys:

- Siop Waith Ieuenctid yn delio â materion yn ymwneud â ffoaduriaid ac ymofynwyr noddfa. Edrychodd 15 o bobl ifanc ar eu gwybodaeth a phrofiad o wasanaethau yng Nghaerdydd.
- Grŵp Astudio Atal a Chwilio wedi ei sefydlu er mwyn cyfweld â 120 o bobl ifanc o'r LLDE i ganfod eu profiad o gael eu hatal gan yr heddlu. Roedd y canlyniadau cynharaf yn dangos bod chwiliadau wedi bod yn anghyfartal. Roedd llawer o'r bobl ifanc yn teimlo'n negyddol a rhwystredig tuag at yr Heddlu.
- Facilitated Personal and Social Education (PSE) sessions Addysg Bersonol a Cymdeithasol Hyrwyddedig (APC). Sesiynau yn edrych ar eu cred a phrofiad ynglŷn ag Addysg a Chyflogaeth. Bu 150 o bobl ifanc yn cymryd rhan (tua 40% o'r LLDE)
- Eid-ul-Adha (Pererindod Flynyddol, dathliad Hajj) Teulu Digwyddiad

Yn ystod Rhagfyr 2008, mewn partneriaeth gyda'r prosiect Estyn Braich, mi gynlluniwyd a threfnwyd digwyddiad ar gyfer teuluoedd LLDE yn ymwneud â `r dathliad crefyddol sy'n arwain at ddiweddglo'r bererindod i Mecca. Bu dros 300 o bobl yn cymryd rhan (40% o rheini yn dod o'r LLDE). Staffiwyd y sesiwn gan wirfoddolwyr o Somali, Yemeni a chymdeithas Affro-Caribïaidd Caerdydd.

Yn ystod 2009, mae Grŵp Rhyng Gysylltu Ieuenctid yn cynllunio i sefydlu nifer o brosiectau yn ymwneud â chyfryngau ffilm a thechnoleg trwy brosiect ymgynghorol sy'n dwyn yr enw "Dinas Amrywiol".

Am ragor o wybodaeth am y prosiectau hyn neu i ymuno gyda Rhaglen Gysylltu y LLDE, a wnewch chi gysylltu gyda Hanna Miyir, Swyddog Datblygu'r Ieuenctid ar 02920 440182 neu ar e bost h.miyir@bvsnw.org.uk

Pen: Grŵp Cysylltu Ieuanc

PWYSIGRWYDD IECHYD MEDDWL

Cynhaliodd y Cyngor Ffoaduriaid Cymraeg gynhadledd bwysig. Pwysigrwydd Iechyd Meddwl: Materion o bwys i Ffoaduriaid ac ymofynnwyr noddfa yng Nghanolfan Dylan Thomas, Abertawe ar y 10fed o Ragfyr 2008. Diben y sesiwn oedd crybwyll hawliau'r gynulleidfa yn y materion hyn.
Amlinellodd Mike Lewis sef Prif Weithredwr y Cyngor Ffoaduriaid Cymreig y sialensiau oedd yn wynebu'r ffoaduriaid. Ei obaith oedd sicrhau bod polisiau`r Llywodraeth mewn materion o Iechyd Meddwl yn cael eu deall gan y cyrff sy'n darparu'r gwasanaeth.

Yn ystod y digwyddiad, roedd y cyfranwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio a rhannu ymarfer da ac adnoddau, yn enwedig yn yr hinsawdd gyllidol bresennol. Awgrymwyd y byddai'n dda i holl grwpiau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod lleisiau'r ffoaduriaid a darparwyr gwasanaeth yn cael eu clywed yn ystod cyfnodau o ymgynghori mewn perthynas â sefydlu polisïau.

Bu siaradwyr yn son am y modd y gallai ansefydlogrwydd meddwl o blith ffoaduriaid ac ymofynwyr noddfa yn datblygu o ganlyniad i ryfel, trais, artaith a gwahaniad o wlad eu mebyd. Rhaid oedd cynnig cymorth i bawb mewn modd adeiladol.

Dysgodd y gwrandawyr am y gwahanol ffyrdd mae gwledydd y Gorllewin a Di Orllewin yn delio gydag ansefydlogrwydd meddyliol. Siaradwyd hefyd am y broses o weinyddu'r system cyfweliad a phwysigrwydd yr angen am hyfforddi cyfieithwyr.

Am ragor o wybodaeth a wnewch chi gysylltu â:
Y Cyngor Ffoaduriaid Cymreig
Tŷ Ffenics
389 Heol Casnewydd.
Caerdydd
CF24 1TP.
Tel 029 2048 9800
www.welshrefugeecouncil.org

Peintio Hanes

Wedi llawer o waith caled ac ymchwil mae dau artist lleol o Gaerdydd, Kyle Legall a Anthony Brito wedi creu cofadail o'r Drenewydd a'i merched a bechgyn enwog. Maent wedi creu murlun sydd 524 o hyd yn Sgwâr Loudoun, yn y Drenewydd – "calon Bae Tiger" yng Nghaerdydd.

Mae'r prosiect, a enwir " Bae Tiger i'r Diwrnod Modern", wedi dod yn realiti o achos help oddi wrth Gyngor Caerdydd wedi i Kyle ac Anthony ddatblygu'r syniad o atgynhyrchu'r gymuned mewn dull celfyddydol. Pwrpas y prosiect oedd ymglymu pobl leol fel eu bod yn edrych nôl ar hanes Bae Tiger gan gynnwys cymeriadau lleol, y rhan a chwaraewyd yn yr Ail Ryfel Byd ac annog pobl ifanc ac oedolion i gymryd rhan mewn siopau gwaith peintio er mwyn arddangos yr hanes mewn modd ffisegol.

Cofadail barhaol i hanes y Drenewydd a'i merched a bechgyn enwog.

Mae Kyle ac Anthony yn gweinyddu'r fenter "Community Helps Itself" (CHI). (GYG) Roedd y fenter gelfyddydol hon wedi ei chreu i helpu gwella'r ardal leol ac i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn ei hatgyfnerthu drwy ddefnyddio celfyddydau a chyfryngau. Mae GYG wedi bod cymaint o lwyddiant fel eu bod wedi ennill gwobr yng Ngwobrwyon Amrywiaeth Cymru ym mis Hydref 2008.

Mae'r GYG wedi bod yn rhedeg sesiynau cymunedol a siopau gwaith ymhlith holl adrannau o'r gymuned leol yn ystod y misoedd diwethaf gyda chymorth Cymunedau Cyntaf Y Drenewydd. Nod y gwaith oedd casglu gwybodaeth hanesyddol ac i baratoi siopau gwaith ar gyfer preswylwyr lleol a phobl leol fel y gallant gymryd rhan yn y fenter.

Wedi 111 diwrnod death y gwaith i ben ac mae'r murlun yn canolbwyntio ar arwyr lleol fel Joey Erskine (pencampwr o focsiwr), y fonesig Shirley Bassey (cantores ryngwladol o fri) a'r cerddor enwog Victor Parker. Mae'r murlun hefyd yn croniclo'r llongwyr masnachol hynny a fu farw yn ymladd dros eu cen-edl. Wrth symud ar hyd y murlun gellir gweld y digwyddiadau mawr yn hanes Bae Tiger/Y Drenewydd fel terfysgoedd hiliol 1919 a'r dirywiad yn y fasnach lo.

Syniad y prosiect oedd creu darn o gelfyddyd addysgol a hanesyddol a fyddai'n ysbrydoli unrhyw berson a fyddai'n cerdded drwy'r ardal hanesyddol hon.

Os ydych am glywed mwy am GYG a wnewch chi ymweld â www.chiproductions.co.uk neu ffoniwch 02920 480808

Os ydych yn ymddiddori mewn sefydlu
Menter Gymunedol galwch y RSWPDC ar 02920 450068 neu anfonwch e-bost i info@bvsnw.org.uk

Pen& Chwith: Manylion o'r Murlun " Bae Tiger i'r Diwrnod Modern"

Y CLWB FFILM YN MYND O NERTH I NERTH

Mae clwb ffilm menywod y LLDE, sydd a'i wreiddiau yn Ŵyl Ffilm "Wales One World" yn dangos ffilmiau yn rheolaidd ac yn rhoi'r cyfle i fenywod y LLDE I wylio ffilmiau cyfoes o wahanol fathau o ddiwylliannau. Mae hefyd yn cynnig y cyfle fenywod ddod at ei gilydd i gymdeithasu mewn dull diogel a chyfeillgar. Ar hyn o bryd mae gan y clwb aelodaeth o dros 200 o fenywod a phlant. Maent yn dod o wahannol gefndiroedd - yn grefyddol, ieithyddol, diwylliedig ac ethnig. Ffaith allweddol arall yw bod yr aelodaeth yn dod o bob oedran - yn amrywio o 5 i fyny i bensiynwyr sydd wedi ymddeol.

O ganlyniad i lwyddiant y prosiect yng Nghaerdydd, mae bellach wedi ymledu i Gasnewydd a Rhondda Cynon Taf. Mae'r prosiect yn cael cefnogaeth barhaol oddi wrth RSWPDC a chyllid oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru yn ogystal â nifer eraill o bartneriaid, yn cynnwys Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd, Canolfan Celfyddydau Chapter, Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd, Mudiad Cymdeithasau Gwirfoddol Gwent & Canolfan Celfyddydol Ger yr Afon (Casnewydd)

Am fwy o wybodaeth wnewch chi alw Rabab Ghazoul, Cydlynydd Clwb Ffilm Menywod y LLDE ar 07759 933 311 neu ar e-bost Rabab@thephone.coop

Chwith: Rhai o aelodau clwb ffilm menywod y LLDE

GRŴP MENYWOD LLEIAFRIFOEDD ETHNIG NEWYDD

Mae'r Grŵp Cymdeithasol ar gyfer Menywod o Leiafrifoedd Ethnig yn cwrdd pob mis yn Sgwâr Loudon yn y Drenewydd. Mae hyn yn wahoddiad i fenywod o gefndir Du ac o leiafrifoedd ethnig sy'n byw yn Grangetown, y Drenewydd a Riverside i ddod at ei gilydd, gwneud ffrindiau newydd, trafod materion y dydd, cymryd rhan mewn gweithgareddau o gelfyddyd. Mae'r grŵp yn mwynhau cefnogaeth oddi wrth RSWPDC , Canolfan Gymdeithasol y Drenewydd ac MEWN Cymru. Yn ystod 2009 mae cynlluniau i drefnu mwy o wibdeithiau, a gweithgareddau celf a chadw'n heini. Maent hefyd yn awyddus i gyfarfod â phartneriaid eraill i weithio ar brosiectau newydd.

Am fwy o wybodaeth a wnewch chi gysylltu â Leanne Rahman, Swyddog Datblygu Celfyddydau i Fenywod ar 02920 440188 neu e-bost l.rahman@bvsnw.org.uk

PROSIECT DATBLYGU ARTIST Y LLDE

Mae`r prosiect sydd yn cael ei gyllido gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn ceisio cynyddu'r nifer o artistiaid du ac o leiafrifoedd ethnig sydd yn gweithio'n broffesiynol yn y celfyddydau yng Nghymru.

Mae'r prosiect yn cynnig hyfforddiant sgiliau, cefnogaeth ddatblygiadol i artistiaid a chwmnïau, fframwaith gyrfaol clir a modelau i ddangos bod y celfyddydau yn medru cynnig gyrfaoedd ymarferol i bobl o'r LLDE

Mae'r prosiect bellach wedi cyrraedd ei ail flwyddyn: Mae datblygiadau yn cynnwys.

- Cyflogi 2 aelod o staff rhan amser gyda gwasanaethau generig a thargedol i ateb anghenion menywod y LLDE
- Mae 138 o artistiaid wedi cofrestri ar gronfa ddata'r RSWP DC. Mae'r gronfa ddata ar gael ar www.bvsnw.org.uk
- Cyn belled mae 130 o sesiynau Cronfa Ddata wedi cymryd lle
- Ar hyn o bryd mae 45 o artistiaid yn cael cefnogaeth 1-2-1
- Ffurfiant Grŵp Cymdeithasol Menywod y LLDE
- Cyfleoedd i wirfoddolwyr newydd

For Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Nicky Delgado, Swyddog Datblygu Celfyddydau, e-bost n.delgado@bvsnw.org.uk neu Leanne Rahman, Swyddog Datblygu Celfyddydau Menywod, e bost L.rahman@bvsnw.org.uk



RSWPDC YN DOD AC ARTISTIAID AC ASIANTAETHAU YNGHYD - PLATFFORM NEWYDD I GEFNOGI'R DIWYDIANNAU DIWYLLIANNOL A CHREADIGOL YNG NGHYMRU

Ym mis Rhagfyr 2008 profodd Cymru'r " Seminar Artistig LLDE gyntaf". Roedd y fenter wedi ei chyllido gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'u lleolwyd yng Nghanolfan Celfyddydau Clwyd y Rhath, Caerdydd.

Roedd yr achlysur, y cyntaf o ddwy seminar ranbarthol, yn gwahodd artistiaid o gymunedau'r LLDE, proffesiynau diwydiannol, swyddogion datblygu celfyddydau rhanbarthol ac Asiantaethau Prif Ffrwd gyda'r bwriad o greu cyfle unigol a deialog rhwng pobl sydd ddim yn cael cyfle i gyfarfod fel rheol. Cafodd proffesiynau'r LLDE hyfforddiant am y gwasanaethau a chyfleoedd oedd ar gael i holl artistiaid Cymru.

Roedd 40 o gynrychiolwyr yn y seminar a phrofwyd rhaglen amrywiol o areithiau, cyflwyniadau a pherfformiadau oddi wrth artistiaid sydd ar hyn o bryd yn rhan o Gronfa Ddata'r LLDE. Bu artistiaid y LLDE yn manteisio ar y cyfle i ymgomio gyda chynrychiolwyr o Gyngor Celfyddydau Cymru, g39, Academi, Dawns Gymunedol Cymru a'r Asiantaeth ffilm dros Gymru.
Bu `r artistiaid LLDE a'r darparwyr gwasanaeth yn cymryd rhan mewn siopau gwaith gyda'r themâu canlynol - Cerddoriaeth a Dawns, Llenyddiaeth, Celfyddydau Perfformiadol, y Celfyddydau Gweledol ac amlgyfrwng.

Roedd y seminar yn llwyddiant ysgubol ac mae cynlluniau ar y gweill i gael ail seminar rhanbarthol yng Ngorllewin Cymru yn 2009.

Uchod: Red Wave Dance yw un o'r grwpiau sydd wedi eu cofrestri gan Gronfa Ddata LLDE

CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY

Chwith: Rhwydwaith Amgylcheddol Ddu (RAD)

PROFFIL O TRISH GRIFFITHS (LLAFUR MUDOL – CANOLFAN CYNGHORI DINASYDDION)

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i gyflwyno fy hun fel Swyddog Gweithwyr Mudol dros Ynys Môn ac yn rhan o'r Ganolfan Gynghori yng Ngogledd Cymru. Nid wyf yn siŵr am faint mwyach y gallaf ddisgrifio fy hun fel "swyddog newydd". Rwyf bellach wedi bod yn y swydd ers Gorffennaf 2008 - ac mae hyn wedi bod yn agoriad llygad i mi.

Rydym yn sylweddoli bod carfannau o weithwyr mudol a grwpiau LLDE wedi sefydlu o amgylch yr ynys ac yng Ngwynedd. Rydym hefyd yn ystyried nad ydynt yn chwilio am ein gwasanaethau. Fy swyddogaeth i yw lleihau eu hunigedd ac i roi cyfleoedd gwell i weithwyr mudol a theuluoedd o'r LLDE.

Credais byddai hyn yn dasg hawdd i`w chyflawni: Credais mai'r cam cyntaf oedd cysylltu gyda'r Cyngor Sir i gadarnhau ble oedd y boblogaeth fudol yn byw. Gellir wedyn foddi'r ardal gyda ffurflenni addas. Ond nid oedd hyn yn hawdd.
I ddechrau nid oedd gan y Cyngor y wybodaeth hon am y gweithwyr mudol er i fod yn deg roedd y Cyngor yn gefnogol im hachos. Gofynnwyd i mi gadw mewn cysylltiad.

Wedyn …. Cymerais ran mewn cyfarfod ymgynghorol a oedd wedi ei drefnu gan y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Cyngor. Profodd hyn bod camsyniadau gan yr ynyswyr am y gweithwyr mudol. O ganlyniad penderfynais i ganolbwyntio ar addysgu ac i gynhyrchu a dosbarthu llyfryn " Myth Busting" I bob teulu dros yr ynys. Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol a grwpiau Cymunedau Cyntaf wedi cynnig help gyda chyllid a phrintio.

Bwriad y Ganolfan Gynghori yw cynnig cyngor rhad, cyfrinachol, diduedd ac annibynnol. Er mwyn hybu'r rhain fy nghynllun fydd i:

1) ymweld â lleoedd gwaith sydd yn cynnwys nifer uchel o weithwyr mudol a rhoi cyflwyniadau iddynt,
2) datblygu ymgyrch bosteri a ffurflenni
3) defnyddio'r cyfryngau
4) gweithio gyda darparwyr gwasanaethau eraill ar yr ynys
5) defnyddio grwpiau cymunedol eraill sydd wedi eu sefydlu
6) sicrhau eich help

O fewn y Ganolfan ar yr ynys. Rydym yn ffodus i gael gwirfoddolwyr sy'n medru siarad Cymraeg, Pwyleg, Arabedd, Siapaniaidd, Mandarin a Ffrangeg - dyma beth yw adnoddau! Rydym yn cynnig cyngor dros y teliffon am ddwy awr pob bore Mercher ac apwyntiadau gydag Ymgynghorwr Pwylaidd pob ddydd Mercher.

Os oes gennych syniadau am sut y gellir datblygu amcanion CC a'u hanelu i'r grwpiau hyn, gwnewch yn siŵr i gysylltu gyda mi.

Cofion, Trish Griffiths

trish@ynysmoncab.org.uk,
teliffon 01248 722652
4/10 Ffordd yr Efail. Llangefni, LL77 7ER

Rhwydwaith Amgylcheddol Ddu (RAD)

Roedd RAD wedi ei greu i ddelio gyda'r diffyg cynrychiolaeth ymhlith cymunedau ethnig o fewn yr agenda amgylcheddol.

"Rydym yn ceisio awdurdodi grwpiau arunig fel eu bod yn medru mynegu `r adnoddau sydd ar gael o fewn y sector amgylcheddol. O ganlyniad gellir gwarantu eu hymgymliad tu hwnt i'r amgylchedd naturiol".

Mae swyddfa Gogledd Cymru wedi ei sefydlu yn Llanberis lle cyfarfu RSWPDC gyda Philippa Owen a Charlotte Barnet.

Mae RAD yn gweithio yn fwyaf gyda'r gymuned Tsieineaidd, sef y grŵp mwyaf sefydledig yn yr ardal. Maent yn gweithio'n agos gyda Chyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd lleol er mwyn gwella'r berthynas gyda'r gymuned Tsieineaidd. "..Efallai nad yw hwn yn ddirgrynol ond dyma'r tro gyntaf ers dwy flynedd i'r Cyngor gael cyfarfodydd uniongyrchol deufisol gydag unrhyw un o'r gymuned ethnig".

Dechreuodd RAD hyn tua dwy flynedd y nôl ac maent yn cyfaddef " bod pethau yn anodd yn gyntaf am nad oedd gan y gwragedd Tsieineaidd - y mwyafrif o'r sector arlwyo - llawer o wybodaeth am ymarferion yr awdurdod. Nid oedd ganddynt sgiliau trefnu a bu RAD yn help i greu fframwaith i'r grŵp.

Roedd Swyddog Cydraddoldeb/Amrywiaeth y Cyngor, sef Ruth Richards, yn flaenllaw yn ei hymateb ar hyn o bryd, ac yn wir mae Ruth a RAD wedi eu hamlygu gan Swyddogion Amrywiaeth y 6 Sir arall fel esiampl o ymarfer da.

Un o'r digwyddiadau cyntaf a drefnwyd oedd un am wybodaeth iechyd. Cefnogwyd y fenter gan Fwrdd Iechyd Gwynedd. Daeth hyn i'r golwg am nad oedd y gymuned Tsieineaidd yn gwybod llawer am faterion iechyd, gofal cartref, pensiynau, hamdden a materion yn ymwneud â thai. Trafodwyd materion fel cancr y fron, calon iach, clefyd y siwgr ac eraill.

Roedd prosiect arall yn ymwneud â llyfrgelloedd Gwynedd. Defnyddiwyd disgiau fidio i helpu pobl oedd yn siarad yr iaith Tsieineaidd. Roedd mam ifanc yn medru dysgu defnydd o'r rhyngrwyd yn unionyrchol i ddefnyddwyr.

Prif amcan RAD yw gofalu am yr amgylchedd ac maent yn trefnu gwibdeithiau i hybu bywyd iach trwy drefnu teithiau cerdded byr, cerdded Llychlynnaidd, ymweld ag adeiladau hanesyddol a gerddi, gwibdeithiau pysgota i hen ac ifanc.

Mae gan RAD gysylltiadau agos gyda'r gymuned Fwslimaidd ym mosg Bangor. Mae pobl yn teithio am amser i weddïo ar Ddydd Gwener am nad oes mosg arall yn agosach na'r un yng Nghonwy. Trwy weithio gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru mae RAD wedi trefnu gwibdeithiau i alluogi Mwslemiaid i gymryd rhan.

Maent hefyd yn gweithio gyda Chymdeithas Philipino Gogledd Cymru. Enghraifft dda oedd yr achlysur pan aethpwyd a grŵp o fechgyn i bysgota ar arfordir Sir Fôn. Trefnwyd hyn gyda chefnogaeth Asiantaeth yr Amgylchedd.

Partneriaeth arall yw'r un gyda'r Gadwyn Sgiliau Rhyngddiwylliannol. Dechreuwyd hyn gan wragedd o Fangor a oedd am ddod at ei gilydd i drafod eu diwylliant. Roedd llawer wedi dod o Iraq, Congo a Gwlad Pwyl (yn wir mae 14 cenhedlaeth wedi eu cynrychioli). Roedd yr aelodau am drafod eu diwylliant, ymdeimlad o unigedd ac i greu cysylltiadau.

Mae RAD yn gweithio i gyflwyno cyfleoedd i wirfoddolwyr o'r lleiafrifoedd ethnig yn y maes amgylcheddol. Maent am hybu'r syniad o gynnig cyflogaeth i bobl ifanc ym myd amgylchedd yn hytrach na dilyn eu rhieni i mewn i'r busnes teuluol.

"Mae'r sector amgylcheddol yn cael ei chanfod i fod yn un i'r dyn gwyn ac i'r dosbarth canol. Ein her yw newid hyn".

Cydnabyddir bod unigedd yn broblem fawr mewn ardaloedd gwledig. Mae RAD yn ceisio hybu ffyrdd i gysylltu pobl trwy e-bost a sefydlu rhwydwaith gymdeithasol.

Mi fyddai RAD yn argymell fod pawb sydd heb glywed amdanynt yn cysylltu gyda nhw.

Am ragor o wybodaeth am RAD ymwelwch â www.ben-network.org.uk neu yng Ngogledd Cymru cysylltwch â Philipa neu Charlotte TEL: 01286 873603, e-bost philippa@ben-network.org.uk

DATHLIADAU TSIEINEAIDD

Mae Cymdeithas Gwragedd Tsieineaidd Gogledd Cymru wedi cychwyn grŵp bach i helpu gyda'u Saesneg (ESOL). Mae pwyllgor wedi ei sefydlu ers 8 mlynedd ym Mwyty`r Eastern Origin ym Mangor. Maent heddiw yn gweithio gyda mudiadau Tsieineaidd eraill mewn dinasoedd fel Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe.

Mae 77 teulu yn aelodau o'r mudiad yng Ngogledd Cymru ac maent yn cael cyfarfodydd misol, gwibdeithiau, partïon yn dathlu'r Flwyddyn Newydd, dosbarthiadau dawns a chôr. Mae grwpiau eraill wedi eu gwahodd fel y cymunedau Ffilipino, Thai, Muslim a Malaysian. Maent hefyd yn codi materion fel anffafriaeth ac mae'r Cadeirydd Alice Yau yn cynnig hyfforddiant amrywiaeth i'r heddlu lleol. Maent hefyd yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd ar faterion yn ymwneud ag iechyd.

Yn ddiweddar dathlwyd Gŵyl y Lleuad a chyflwynwyd yr adroddiad canlynol gan un o'r aelodau:

Mae diwylliant Tsieineaidd yn rhan annatod o wyliau traddodiadol. Yn debyg I Nadolig yn y gorllewin, mae Gŵyl y Lleuad - neu Ŵyl Ganol yr Hydref - yn un o'r digwyddiadau pwysicaf i ni.

Mae'r ŵyl yn un boblogaidd ymhlith y Tsieineaidd, yn enwedig i bobl hŷn. Mae'n ddiwrnod i'r teulu, cariadon ac aduniad.

Yn draddodiadol credwyd bod yr ŵyl wedi cychwyn i ddathlu'r cynhaeaf. Mae Tsieina wedi bod yn wlad amaethyddol am filoedd o flynyddoedd. Credir mai'r amser gorau i gynnal yr ŵyl yw'r 15fed o'r 8fed mis lleuad pan mae'r lleuad yn llawn, llachar a phrydferth.

Ym mis Medi 2008 cynhaliodd cymdeithas gwragedd Tsieineaidd Gogledd Cymru'r ŵyl hon yn Nhŷ Bwyta`r Eastern Origin ym Mangor. Dechreuwyd yr ŵyl gan gyflwyniad gan Mrs Alice Yau, sef Cadeirydd Cymdeithas Gwragedd Tsieineaidd Gogledd Cymru. Estynnodd groeso i'r holl aelodau. Bu'r aelodau yn mwynhau gwledd yr ŵyl megis enghreifftiau o ddull coginio Tsieineaidd. Chwaraewyd gemau ac roedd yna gwis a raffl. Bu llawer o ganu yn ystod y nos. Bu llawer o blant yn cymryd rhan hefyd. Yn bennaf, roedd yr holl aelodau wedi mwynhau'r cymdeithasu gyda hen ffrindiau a rhai newydd.

Gan Sarah Cheung (enillydd y Wobr Unigol yn y Gwobrwyon Amrywiaeth 2008)

NOSON RYNGWLADOL FLYNYDDOL PRIFYSGOL BANGOR

Bydd Noson Ddiwylliant Rhyngwladol Prifysgol yn cael ei chynnal ar y 18fed o Chwefror eleni.

Mae'r achlysur blynyddol yn rhoi cyfle I fyfyrwyr ddathlu diwylliant ac arwahanrwydd y Brifysgol, gyda myfyrwyr o wahanol wledydd yn dangos eu doniau trwy fiwsig, dawns, barddoniaeth a gwisg.

Mae tua 1,500 o fyfyrwyr rhyngwladol ym Mangor, o dros 90 gwlad. Mae'r noson ryngwladol yn gyfle i fyfyrwyr o Gymru a dros y byd i brofi a dysgu am eu diwylliannau gwahanol. Mae'r achlysur wedi ei sefydlu ers tair blynedd ac mae rhif y rheini sy'n cymryd rhan wedi tyfu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu myfyrwyr o Tsieina, Siapan, Yr India, De'r Affrig, Jamaica a Chymru yn perfformio caneuon, dawns a barddoniaeth. Yn ogystal cafwyd priodas Maleisaidd ffug!

Y gobaith eleni yw dangos mwy o berfformwyr sy'n arddangos a dathlu'r gwahanol wledydd sy'n cael eu cynrychioli gan y Brifysgol. Gobeithiwn am gyfraniad oddi wrth y gymdeithas leol hefyd - er enghraifft stondinau a pherfformiadau. Y gobaith fydd i roi cyfle i fyfyrwyr o dramor i gymysgu gyda grwpiau gwirfoddol lleol a chysylltu â chymdeithasau perthnasol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Alan Edwards (Swyddog Lles Myfyrwyr Tramor) ar 01248 388430.

Isod: Noson Ryngwladol Flynyddol Prifysgol Bangor

DIWRNOD RHYNGWLADOL GWRAGEDD

Mae Women Connect First ynghŷd â BAWSO, Cydraddoldeb Hiliol Cyntaf, APCC a Chyngor Caerdydd yn trefnu digwyddiad i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Gwragedd ar Ddydd Mawrth 10fed o fis Mawrth 2009 yn Neuadd Dinas Caerdydd, rhwng 10am a 4.30pm. Bydd stondinau ar gael ac mae croeso i bawb ddod i gyfrannu. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Women Connect First ar 029 20 343 154.

MEINI TRAMGWYDD SY'N WYNEBU POBL HEB OLWG O FEWN Y CYMUNEDAU ETHNIG & LLEIAFRIFOL.

Mae Cymdeithas Gwent dros y Deillion a'r Cynulliad Cymreig yn gweithio'n agos gyda Chymunedau Ethnig a Lleiafrifol yn Ne Ddwyrain Cymru er mwyn dangos y nifer o fewn y LLDE sy'n dioddef o gyflwr llygaid ac i ddangos bod llawer ohonynt yn ataliol. Mae ymchwil yn dangos:

- 1 mewn 10 o bobl o leiafrifoedd ethnig dros 65 yn profi colled yn eu golwg
- Mae pobl o gefndir Du Caribïaidd neu Du Affricanaidd yn 4-5 waith mwy tebyg i ddatblygu glawcoma
- Mae pobl o Asia yn chwe gwaith mwy tebygol i gael clefyd y siwgr.
- Mae pobl o gefndiroedd Du Caribïaidd neu Ddu Affrica naidd yn 3 gwaith mwy tebygol i risg ac felly mwy tebygol i gael retinopathi a cholled yn eu golwg.

O ganlyniad i hyn mae`r Gymdeithas dros y Deillion yn lledaenu'r neges er mwyn atal dellni trwy wella diet, newidiadau mewn ffordd o fyw, mynd am brofion llygaid rhad (fel rhan o Fenter Gofal Llygaid Cymru), a mynd am apwyntiadau i bethau fel Sgrinio Retinopathi.

Mae Nirmala Pisavadia, Rheolwr Datblygu, a phennaeth y prosiect, yn trefnu cynhadledd fawr o broffesiynwyr iechyd i ddelio gyda'r meini tramgwydd sydd yn wynebu grwpiau ethnig. Gyda siaradwyr o bob rhan o'r DU, a gyda phanel o arbenigwyr, rydym yn gobeithio y bydd y gynhadledd hon yn sefydlu sylfaen a all gynnig gwell gwasanaeth i bobl sydd yn dioddef oherwydd eu cefndir genetig.

Yn y cyfamser os ydych yn gwybod am grŵp a all fod o fudd i gyflwyniad Nirmala, neu os teimlwch fel cyfrannu yn y ddadl, maent yn awyddus i glywed oddi wrthych.

Mae'r cyngerdd yw cynnal yng Nghanolfan yr Holl Wledydd yng Nghaerdydd ar y 12fed o fis Chwefror, 2009 ac fe ellir cael mwy o wybodaeth oddi wrth
Cymdeithas Ddeillion Gwent
Tŷ Bradbury
Adeiladau'r Parc
Pont-y-pŵl NP4 6JH
01495 763650
Nirmala@Gwentblind.org

MERCHED YN CAMU YMLAEN - ADDYSG AFFRICANAIDD I'R GENHEDLAETH NESAF

Fel rhan o weithgareddau'r MHPDC 2008, cynhyrchodd Merched yn Camu Ymlaen Rhaglen chwe wythnos am Addysg Affricanaidd. Mae'r rhaglen yn gweithio gyda phobl ifanc rhwng 4 a 17 mlwydd oed, ac yn eu dysgu am gelf, cerddoriaeth Drama a Hanes. Mae'n cynnwys dysgu am gyfraniad positif gwyddonwyr o'r Affrig, doctoriaid, dyfeiswyr a difyrwyr.

Cynhaliodd Merched yn Camu Ymlaen ddigwyddiad arbennig yn y Point yn y Drenewydd ym mis Hydref. Roedd dros 100 o bobl yn bresennol ac mae'r math hyn o ddigwyddiadau wedi bodoli yn flynyddol ers 2002.

Mae'r Rhaglen Addysg Affricanaidd yn cynnwys nifer fawr o bobl ifanc pob blwyddyn. Wedi graddio maent yn gorymdeithio mewn gynau gwyn a chapiau sy'n arddangos eu llwyddiant. Bydd digwyddiad eleni yn cymryd lle ar Ddydd Sul 22ain o Chwefror gan gychwyn am 2.30pm ger Tafarn y Cei yng Nghei'r Iwerydd, Caerdydd.

Y tâl fydd £5 i oedolion ond yn rhad ac am ddim i blant.

Latifah and Faye
Cyfarwyddwyr Merched yn Camu Ymlaen

Am ragor o wybodaeth, neulltiad ac ymholiadau cysylltwch â: Symudol 07890 681383 neu e bost: walkeralaj@aol.com

Pen: Merched yn Camu Ymlaen

Eich treftadaeth, Eich Amgueddfa, Eich barn!

Ym mis Chwefror eleni bydd llyfrgelloedd archifau ac Amgueddfeydd CyMAL yn cynnal dau ddigwyddiad ymgynghorol, un yn Ne Cymru i ofyn eich barn am ddau brosiect newydd.

Mae CyMAL yn gweithio ar ddull newydd o gyflwyno myn-ediad i dreftadaeth Cymru. Bydd Casgliad y Bobl yn cyrraedd ymrwymiad Cymru Gyfan I ddatblygu casgliad Cymraeg o Hanes y Bobl. I ddechrau, casgliad o'r Amgueddfa Genedlaethol, y Llyfrgell Genedlaethol a'r Comisiwn dros Hen Gofadail bydd sail y safle ond bydd gan bawb y cyfle i ychwanegu eu cynnwys.

Mae pum thema wedi eu dewis:

1. Storiâu Cymunedol
2. Hanes Cymdeithasol leithoedd Cymru
3. Sut mae dynion a merched wedi cyfrannu tuag at hanes a diwylliant Cymru
4. Sut mae chwaraeon ag hamdden wedi effeithio ar ddiwyl liant a chymdeithas Cymru
5. Arholi ar sut mae ymfudiad, mewnfudiad ac allfudiad wedi effeithio ar y genedl.

Pwrpas yr ymgynghori yw cael eich barn am ddatblygiad y safle ac i ddangos sut ellir helpu cofnodi eich hanes. Mae CyMAL hefyd yn datblygu Strategaeth I Amgueddfeydd yng Nghymru, gan edrych ar sut all yr amgueddfeydd wella eu gwasanaeth a denu pobl sydd ar hyn o bryd yn eu gweld yn amherthnasol.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn cymryd rhan. Bydd dyddiadau a mannau cyfarfod yn cael eu cyhoeddi yn fuan.

Bydd lleoedd yn gyfyngedig ac os oes chwant arnoch gofrestru cysylltwch â:
Nicky Delgado - Swyddog Datblygu'r Celfyddydau
ar 029 20 440188 neu e-bost n.delgado@bvsnw,org.uk

Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Du Cymru
Ty Crichton,
11-12 Sgwar Mount Stuart
Caerdydd CF10 5EE
Ffon: 02920 450068
Ebost: info@bvsnw.org.uk

Rhif y cwmni: 4067687
Rhif yr elusen: 1087638

Staff y RSWPDC yw:

Maria Mesa
Cyfarwyddwr BVSNW
m.mesa@bvsnw.org.uk

Nathan Evans
Rheolwr Gweithredol
n.evans@bvsnw.org.uk

Jolanda Tenggara-Petrosino
Swyddog Cyllid
j.tenggara@bvsnw.org.uk

Patricia Barrera
Swyddog Cyfranogiad Sipsiwn a Theithwyr
patricia.barrera@bvsnw.org.uk

Michael Flynn
Swyddog Cyfathrebu a Chyfranogiad
m.flynn@bvsnw.org.uk

Nicky Delgado
Swyddog Datblygu'r Celfyddydau
n.delgado@bvsnw.org.uk

Leanne Rahman
Swyddog Datblygu'r Celfyddydau
l.rahman@bvsnw.org.uk

Hanna Miyir
Swyddog Datblygu Pobl Ifanc
m.miyir@bvsnw.org.uk

Gareth Hicks
Swyddog Datblygu Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig (Gwryw)
g.hicks@bvsnw.org.uk

Arafa Mustafa
Swyddog Datblygu Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig (Benyw)
a.mustafa@bvsnw.org.uk

Floribeth Soto
Derbynnydd/Gweinyddwr
info@bvsnw.org.uk

Ymwrthodiad: Mae unrhyw farn neu safbwynt a fynegir yn Newyddion BVSNW yn eiddo i'r cyfrannwr, ac nid yw BVSNW o reidrwydd yn cefnogi barn neu safbwynt y cyfranwyr.

Defnyddir y termau croenddu, BME a lleiafrifoedd ethnig i gyfeirio at bobl a chymunedau o dras Affricanaidd, Caribiaidd ac Asiaidd. Yr ydym hefyd yn defnyddio'r derminoleg ar gyfer y rhai o gymunedau lleiafrifol eraill sydd yn dioddef anfantais neu anffafriaeth o ganlyniad i'w hethnigrwydd, eu crefydd neu eu diwylliant. Derbyniwn mai ein diffiniad ni yw hwn ac nid yw'n rhwystr rhag i eraill greu diffiniad eu hunain.

Prisoedd Hysbysebu

Tudalen Lawn £200.00
Hanner Tudalen.....£100.00
Chawarter Tudalen.....£ 50.00

(Trafodir unrhyw beth arall)